

Cofnodion y cyfarfod arbennig o Gyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Awst 11eg yn Dihewyd am 7.00pm.

1. PRESENNOL : Y Cyngorwyr Alan, Henson (Cadeirydd), Johnny Davies, Gerwyn Owen, Glyn Davies, Harry Williams, Lynford Thomas, Lyn Williams, Daniel Evans, Haf Hughes

2. YMDDIHEURIADAU – Y Cyngorwyr Owen Llywelyn, Hywel Ifans

3. DATGELU BUDDION PERSONOL

- I. Y Cyng. Alan Henson A200356 Volac - codi Portakabin
- II. Y Cyng. Alan Henson, Volac A200493 dymchwel ac ail godi adeilad prosesu.

4. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion Mawrth 10fed, 2020. Cynigiwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan Y Cyng. Lyn Williams.

5. MATERION YN CODI

5iii Bythynnod Bwlch y Person. Derbyniwyd llythyr wrth Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth yn cadarnhau bod cysylltiad ffeibr ar gael ar y safle erbyn hyn. Pasiwyd y llythyr ymlaen i'r Cyng. Hywel Ifans i'w rannu gyda pherchnogion y bythynnod.

6.Ysgol Fro Newydd. Oherwydd Covid 19, ni gynhaliwyd y cyfarfod i sefydlu'r Corff Llywodraethol Cysgodol ar y 1af o Ebrill. Nododd Y Cyng. Lynford Thomas bod cyfnod sefydlu'r ysgol newydd wedi ymestyn o dair i bum mlynedd.

6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Cafwyd adroddiad gan Y Cyngorwyr Lynford Thomas am waith a chyfarfodydd amrywiol y cyngor dros y misoedd clo sydd wedi bod yn cael eu cynnal ar ffurf cyfarfodydd Skype, Zoom ayb. Nododd, er yr amgylchiadau fod y sesiynau wedi bod yn effeithiol. Soniodd hefyd am lwyddiant y Sir yn ei ymdrechion i leihau'r lledaeniad Covid 19 sydd wedi cael cryn sylw ar draws y cyfryngau a chadarnhodd bod y Cyngor Cymuned wedi ysgrifennu at y Prif Weithredwr i ddiolch am ei ymdrechion.

7. CYLLID

Ar ddechrau'r cyfnod clo, cafwyd cytundeb dros e-bost gan y Cyngorwyr i'r Clerc i barhau i weithredu'i dyletswyddau ar ran y Cyngor tra'n cadw at reolau diogelwch y Llywodraeth gan gynnwys cwblhau'r Archwiliad Mewnol mewn ymgynghoriad â Gwyn Jones. Arwyddwyd y sieciau gan Y Cyng, Lyn Williams a'r Cyng. Haf Hughes gan gadw at reolau'r cyfyngiadau. Cytunwyd i barhau'r a'r trefniant hwn os na fydd hi'n bosib cwrdd yn rheolaidd.

i. Diwedd Blwyddyn Ariannol 2019-2020

- a. Tal y Clerc mis Mawrth £153.46
- b. Antur Teifi – £72.00 gweinyddu payroll (£12.00 VAT)
- c. Swyddfa Archwilio Cymru – External Audit £266.75
- d. HMRC – Taliad Treth Cyfnod 4 £115.00
- e. Cadarnhawyd newid y system gofnodi ariannol i 'receipt and payments' yn hytrach nag incwm a gwariant i hwyluso trefniadau diwedd y flwyddyn ariannol.

ii. Ebrill - Awst 2020

- a. Tâl y Clerc mis Ebrill 2020 £153.46
- b. Zurich (Yswiriant) £609.63
- c. Gwyn Jones Archwilydd Mewnol £150
- d. Ad-daliad TAW am £154.51 wedi cyflwyno
- e. Derbyniwyd Praesept 1: 30ain Ebrill £3316.66
- f. Tâl y Clerc mis Mai 2020 ££153.26
- g. Tâl y Clerc mis Mehefin 2020 £268.26 (Mae cod treth y Clerc wedi newid ers mis Ebrill felly cafwyd ad-daliad o £76.60 (2 x taliad £38.30 am fis Ebrill a Mai) ac yna 1 cyflog llawn heb dreth am fis Mehefin sef £191.66 yn gwneud cyfanswm o £268.26.
- h. Tâl y Clerc £191.66 bydd cyfanswm y cyflog o hyn ymlaen ac ni ddylai fod yna taliadau yn ddyledus i HMRC oni newidith sefyllfa waith y Clerc.
- i. Tâl y Clerc mis Gorffennaf 2020 £191.66
- j. Costau Clerc Ebrill – Gorffennaf £74.38

- k. Derbyniwyd yr ail daliad Praespet £3316.00
 - l. Balans yn y banc 31 Gorffennaf 10, 739.00
- iii. **Cyfrifon 2019-2020.** Derbyniwyd adroddiad yr Archwilydd Mewnol a chadarnhawyd cyfrifon 2019-2020. Cynigiwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan Y Cyng. Gerwyn Owen. Cadarnhawyd bod y cyfarwyddiadau a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilwyr Cymru yn ystod y cyfnod clo wedi eu dilyn a bod y datganiadau perthnasol wedi eu rhoi ar y wefan. Cafwyd dyddiad terfynol o'r 10fed o Fedi er mwyn cyflwyno'r cyfrifon i Grant Thornton. Arwyddwyd y ffurflenni angenrheidiol gan y Cadeirydd.

Diolchwyd i Mr. Gwyn Jones am bob help a chyngor ychwanegol i'r arfer yn ystod y cyfnod hwn.
- iv. **Cyfrifon 2020-2021.** Penderfynwyd cyflwyno Cyllideb 2020-2021 i'w hystyried yn ein cyfarfod nesaf gan gynnwys:
 - a. neilltuo cyfran o'r praeseptt ar gyfer prosiect cymunedol arbennig
 - b. trafod rhoddion elusennol (Deddf 137)

8. *CYNLLUNIO

- I. A200354 Safle: Neuadd Bentref Dihewyd, Dihewyd, SA48 7PN Y Bwriad: Hysbysfwrdd y tu allani'r neuadd
- II. Rhif y Cais A200356 Volac codi Portakabin
- III. Feinog Uchaf Rhif cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio* unio:APP/D6820/V/20/32460050. Anfonwyd llythyr at yr Arolygaeth Gynllunio yng Nghaerdydd yn cefnogi'r cais.
- IV. Volac International Ltd Rhif y Cais: A200493 Dymchwel ac ail godi adeilad prosesu.

*Cefnogwyd y ceisiadau uchod trwy ohebiaeth e-bost â'r cynghorwyr ac anfonwyd ymatebion at y swyddogion cynllunio perthnasol trwy e-bost a nid trwy ddefnyddio CLIC.

9. UNRHYW FATER ARALL

- I. **Llwybr troed newydd ar yr A482, Felinfach.** Derbyniwyd cais gan aelod o'r cyhoedd trwy'r Cyng. G. Davies am ymestyn y droedffordd o'r cae chwarae i'r gilfan. Anfonwyd llythyr at Adran y Priffyrdd a chafwyd ymateb yn cadarnhau y bydd y cais yn cael ei gyfeirio ar gyfer ei ymchwilo a'i asesu.

- II. **Wal ger Y Mynach Cribyn.** Trafodwyd cyflwr y wal a phenderfynwyd cysylltu unwaith eto, trwy lythyr, ag Adran Y Priffyrdd i dynnu sylw at y dirywiad a'r peryg posib i gerddwyr a gyrrwyr.
- III. **Bont tu Ôl Ysgol Cribyn.** Tynnodd Y Cyng. Lyn Williams sylw o gyflwr gwael at y bont sydd yn croesi nant ar y llwybr cyhoeddus sydd. Penderfynwyd cysylltu â'r Adran Hawliau Tramwy.
- IV. **Arosfan Bws Cribyn.** Penderfynwyd gwneud ymholiadau gan adeiladydd/wyr lleol parthed ail-doi yr arosfan ac i wneud ychydig o waith gynnal-a-chadw ychwanegol.
- V. **Trefniadau yn ystod y cyfnod clo.** Diolchodd Y Cyng. Haf Hughes i'r Clerc am ei gwaith wrth sicrhau bod gwaith y Cyngor yn parhau tra'n cadw at y rheolau diogelwch anghenrheidiol.

10. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos Fawrth, 8fed Medi, 2020 am 7.30 yn Neuadd Felinfach. Cedwir yr hawl i newid ar y trefniant hwn pe bai'r amgylchiadau parthed Covid 19 yn newid.